**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 10fed Hydref 2024**

**Yn Nhalbont, Rhydyclafdy am 7.30 yh**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Catherine Hughes

Gareth Roberts

Tesni Jones

Wynne Davies

Phil Roberts

Nia M Jones

Dafydd Ll Williams

Cynghorydd Sirol Anwen Davies

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan, Rhys Jones (Is-gadeirydd) a Einir Lewis.

**Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi**

Cadarnhawyd bod cofnodion 12/09/24 yn gywir gan y Cynghorydd Phil Roberts, ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Nia M Jones.

**Materion yn codi**

Nid oedd materion newydd yn codi.

**Cyfarfod: Dyfodol Gwasanaeth Ambiwlans a materion eraill 14/11/24**

Trafodwyd y cyfarfod uchod, dangoswyd diddordeb gan pob Cynghorydd i fynychu'r cyfarfod yma. Penderfynwyd i newid dyddiad cyfarfod Tachwedd i 21/11/24 er mwyn i bawb fynychu'r cyfarfod yma. Nodwyd Anwen Davies y Cynghorydd Sirol ei bod wedi cytuno i'w fynychu. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn gyrru neges bach i bawb i fynychu'r cyfarfod hwn yng Ngaphel y Drindod Pwllheli, 14/11/24.

**Gohebiaeth**

**Gosod Cofeb ger safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan**

Adroddwyd y Cadeirydd bod y garreg gilbost wedi'w gosod 06/10/24. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Wynne Davies am y garreg. Diolchwyd i'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Phil Roberts am gludo'r garreg i Foduan. Diolchwyd i Gareth, Llwyn Beuno

am osod y garreg yn ei lle. Nodwyd bod y Clerc wedi gyrru'r ysgrifen sydd i fynd ar y lechen i Mike Tanner er mwyn paratoi'r "proof".
Nodwyd bod y Clerc wedi gyrru ebost i Iestyn Tyne hefyd, er mwyn gweld os oedd yn fodlon hefo gosodiad yr ysgrifen a hefyd llun o'r garreg gilbost yn ei lle.

**<u>Cais Cynllunio</u>**
Nid oedd unrhyw gais Cynllunio newydd i'w drafod.

C24/0704/33/LL – Cais ôl-weithredol yn ymwneud a chodi adeilad i gadw hofrennydd, creu helipad, ac estyniadau i'r tŷ – Ynys, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8UA.
Nodwyd bod y Clerc wedi derbyn ebost gan Mr J Garton yn gofyn i'r Cadeirydd gysylltu ag ef drwy ebost. Bu i'r Cadeirydd gytuno i ymateb i'w ebost.

**<u>Materion ariannol</u>**
**Cysoniad banc o ddyddiad:**
04/08/24 – 03/09/24 - £9,342.71c
04/09/24 – 03/10/24 - £8,846.23c

Derbyniwyd y Datganiad Banc Mis Medi 2024 gan y Cynghorwyr.
Yn ystod cyfarfod 10/10/24, cafodd 6 siec eu harwyddo gan y Cynghorydd Tesni Jones a'r Cynghorydd Phil Roberts.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200825 | Cyflog y Clerc (Mis 7) | £204.80c |
| Siec Rhif 200826 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau (Mis 7) | £51.20c |
| Siec Rhif 200827 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yng Nghlwb Chwaraeon, Pwllheli (cyfarfod mis Tachwedd) | £20.00 |
| Siec Rhif 200828 | Costau Teithio'r Clerc | £4.68c |
| Siec Rhif 200829 | Defib Store Ltd | £208.80c |
| Siec Rhif 200830 | McAfee Annual Renewal | £84.99c |

**<u>Unrhyw fater arall</u>**
**<u>Fainc ym Moduan</u>**
Nodwyd bod y Cadeirydd wedi bod ar y safle yn mesur maint y plac. Nodwyd ei fod wedi trafod y gwaith hefo Mike Tanner. Cytunwyd i'r Clerc ebostio'r ysgrifen sydd angen ei roi ar y plac i Mike Tanner.

**<u>Cwblhau Archwiliad – Archwilio Cymru</u>**
Nodwyd y Clerc nad oedd wedi cael unrhyw gyswllt gyda aelodau o staff Archwilio Cymru yn dilyn uwchlwytho ein gwaith cyfrifon iddynt. Nid oes unrhyw ddiweddariad o safbwynt yr archwiliad.

**<u>Dî-ffib Twnti</u>**
Nodwyd bod y Clerc wedi derbyn anfoneb am £208.80c gan y Cwmni Defib ar gyfer archebu'r bateri a'r padiau newydd. Roedd pawb yn hapus hefo'r pris. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau gan y cwmni pan fyddent wedi derbyn y siec.

**<u>Cysylltu â'r Adran Briffyrdd</u>**
Nodwyd bod yr arwydd **BODUAN** wedi cael ei dynnu oddiar y bocs blodau sydd wedi ei leoli yn Pant Tacho. A fyddai modd cael diweddariad o safbwynt cael un newydd?

Nodwyd bod angen torri coed ar hyd "Lôn Two Tones" gan eu bod wedi tyfu'n sylweddol.

Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Gareth Roberts o'r Adran Briffyrdd i ddiolch iddo am drefnu'r gwaith barbio ar ochr y ffyrdd ym mhlwy Buan. Pawb yn gytun bod y gwaith yn daclus iawn.

Nodwyd y Cynghorydd Sirol ei bod wedi ffonio Heddlu Gogledd Cymru yn ddiweddar ynghlyn a'r materion o or-yrru yn ardal Boduan a Rhydyclafdy. Maen parhau i swnian arnynt.

Nodwyd bod tyllau yn y lôn yn Glanrhyd wrth ddod i'r Groesffordd o gyfeiriad Dinas, gofynwyd i'r Clerc nodi hyn fel cwyn i'r Adran Briffyrdd.

Nodwyd bod draen wedi blocio gyferbyn a Giat Goch sy'n creu'r dŵr hel at yr eiddo. Nodwyd y Cynghorydd Sirol y byddai'n tynnu sylw Glyn Teitus (Priffyrdd) at y mater yma.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 21/11/24 yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd am 7.30yh.**